Mae stori Injaroc yn dechrau gyda band arall, sef Edward H. Dafis. Ffurfiwyd Edward H. ym 1973, a dros y tair blynedd ganlynol fe brofodd y band lwyddiant ysgytwol. Llwyddodd greu dilyniant ymysg pobol ifanc Cymru fu'n frwdfrydig a ffyddlon. Roedd noson ola' Edward H yng Nghorwen yn enfawr. Daeth miloedd i'r achlysur yn yr hen neuadd sinc. Ffilmiwyd y cyfan gan HTV. Dyna fel oedd hi ym 1976. Ysgrifennwyd degau o erthygle ym mhapurau y dydd yn canu marwnad i'r band. Roedd profiad Injaroc yn dra gwahanol.

Roedd Charli Britton yn gweithio yn Llundain ar y pryd ac yn teithio 'nol a blaen i Gymru i chwarae gigs gyda Edward H ar y penwythnosau. Roedd hefyd yn chwarae mewn band roc yn Llundain gyda Geraint Griffiths. O bryd i'w gilydd fe fydda'i Geraint yn dod 'nol gyda Charli i chwarae gitâr gyda Edward H. Roedd yn hen ffrind i Hefin ac yn gefnder i John Griffiths. Bu'n recordio gyda'r band ar eu record cyntaf, '*Hen Ffordd Gymreig*' a'r un diweddaraf, '*Sneb Yn Becso Dam*'. Roedd Caryl Parry Jones a Sioned Mair yn aelodau o'r grŵp '*Sidan*', Hefin cynhyrchodd ei record hir, '*Teulu Yncl Sam*'. Roedd Endaf Emlyn yn adnabyddus i bawb fel artist recordio ac roedd ei record hir, '*Salem*' yn cael ei chyfri'n glasur, er nad oedd Endaf wedi bod yn aelod o grŵp erioed. Fu Charli, Hefin, John a Cleif Harpwood yn aelodau o Edward H wrth gwrs. Felli, ar ôl trafod y syniad yn ystod haf 1976 penderfynodd yr aelodau fentro arni a ffurfiwyd Injaroc.

Dechreuodd yr 'hype' yn gynnar ym mywyd y band. Trefnwyd sesiwn tynnu lluniau yng ngwesty'r 'Cliff' yng Ngwbert. Ffilmiwyd yr aelodau ar ddiwrnod heulog yn ymyl pwll nofio'r gwesty. Llwyddodd Ken Davies, y dyn camera, greu awyrgylch California yng Ngheredigion, wel, bron a bod! Darlledwyd y ffilm fel eitem ar raglen newyddion y BBC. Mae'n anodd credu fydda'i hyn yn digwydd heddiw.

Symudodd Geraint yn ôl i fyw yng Nghymru ym mis Hydref '76 a daeth Charli yn ôl yn fuan wedyn. Dechreuodd y band ymarfer ar ddiwedd y mis. Treuliwyd penwythnosau cyfan yn ymarfer mewn gwahanol ganolfannau fel Aelwyd yr Urdd, Caerdydd, neuadd pentref Dihewid, neuadd y pentref ym Mhenrhyndeudraeth, ac yn bennaf, campws Prif Ysgol Aberystwyth. Bryn Jones, a oedd yn beiriannydd gyda chwmni recordio Sain, fu'n trefni'r system sain. Roedd cwmni Sain eisoes wedi dangos diddordeb yn y band ac wedi cynnig cytundeb recordio ar gyfer record hir iddynt.

Roedd dylanwadau cerddorol cymysg iawn yn lliwio cyfeiriad caneuon y band. 'The Eagles' efallai oedd y dylanwad pennaf i ddechrau. Ond roedd Charli a Geraint yn hoff o 'Orleans', band Americanaidd oedd yn defnyddio rhythmau 'ffync'; fe ddaeth y dylanwad yma i'r amlwg dros yr wythnosau. Hefyd, gan fod yr aelodau i gyd yn medru canu roedd harmoni yn bwysig i'r caneuon. Dyma'r rhestr o'r aelodau a'u cyfraniadau ar y pryd:

*	Charlie Britton	-	Drymiau, Llais.
*	Hefin Elis	-	Gitâr, Piano, Llais.
*	Endaf Emlyn	-	Gitâr, Llais.
*	Sioned Mair	-	Llais, Offer taro.
*	Geraint Griffiths	-	Gitâr, Gitâr ddur, Llais.
*	John Griffiths	-	Bas, Llais.
*	Cleif Harpwood	-	Llais, Offer taro.
*	Caryl Parry Jones	-	Llais, Piano, Offer taro.

Roedd y papurau yn dechrau dihuno i'r sefyllfa. Dyma eiriau *Y Cymro*:

" Endaf Emlyn i ymuno a grwp newydd ac i ymddangos yn rheolaidd mewn cyngherddau led-led Cymru…
…Bydd y grwp y mwyaf o'i fath o ran nifer yn hanes canu poblogaidd Cymraeg…
…holl aelodau Edward H. Dafis ar wahan i Dewi Pws Morris…"

Ar ôl yr holl ymarferion roedd y band yn awyddus iawn i berfformio. Daeth y cyfle cyntaf yn 'Steddfod Ryng-golegol Aberystwyth ar y 11eg o Fawrth 1977. Ysgrifennwyd y caneuon ar gyfer y set gan amryw o'r aelodau, dyma'r rhestr sydd ar gof:

Halen Y Ddaear
Blodau'r Ffair
Llithro Mas
Ffync Yw'r Pwnc
Swllt A Naw
Pwy
Capten Idole
Ledi
Tyrd Efo Mi am Roc a Rol
Calon
Cefn Gwlad
Fenyw
Paid Edrych 'Nol
Eryr

Yn ôl profiad y band, fu'r noson yn llwyddiant. Roedd y gynulleidfa i'w gweld yn mwynhau'r gerddoriaeth newydd ac roedd y papurau Cymraeg yn llawn o'r hanes dros yr wythnos ganlynol:

" Gyda'r nos gwelodd cystadleuwyr y prynhawn y safon y dylid anelu ato pan gafwyd cyngerdd / dawns gan Grwp Heather Jones ac Injaroc……Aeth y sioe yn llyfn a slic….Defnyddiwyd tryloywderau, fflachiwyd enw'r grŵp ar y sgrîn tu cefn i'r llwyfan, a syllai'r myfyrwyr ar y sioe na lusgodd am eiliad, yn union fel y gwnâi eu rhagflaenwyr ar grwpiau Saesneg amlwg a fu ar yr un llwyfan. Yr un oedd y safon……Anodd gwybod pwy ddylai gael y sylw pennaf petai Injaroc a Rcing Cars yn rhannu'r un llwyfan…….Nid rhyfedd fod y Bonwr Hefin Elis yn gwenu fel cath ac yn symud mwy ar y llwyfan mewn dwy awr nag y gwnaeth mewn tair blynedd gyda Edward H."

Fu'r papurau yn dangos diddordeb yn yr ymarferion hefyd, yn Y *Cymro* eto:

"…bydd yr wyth yn treulio cymaint o benwythnosau a phosib yn ymarfer yn rhai o neuaddau cefn gwlad Ceredigion."

Yn Llangadog fu'r ail ymddangosiad. Roedd hon yn noson gofiadwy hefyd gyda bysiau wedi eu trefni i gludo pobol o ardal eang. Roedd pwyslais mawr ar greu sioe yn hytrach na dim ond perfformio rhestr o ganeuon. Roedd gan y band offer safonol a system sain broffesiynol. Defnyddiwyd goleuadau llwyfan i greu awyrgylch. Roedd pob can yn cynnwys harmonïau, rhai cymhleth ac uchelgeisiol ar adegau. Roedd

presenoldeb dwy ferch ifanc ddeniadol a phawb mewn gwysgoedd yn arbennig i'r llwyfan yn beth newydd i'r byd roc Cymraeg.

Ar y 9ed o Ebrill 1977 teithiodd y band i stiwdio Sain yn Llandwrog i ddechrau'r gwaith o recordio eu record hir *Halen Y Ddaear*. Y bwriad oedd i gynnwys y mwyafrif o'r set lwyfan. Y pryd hynny roedd y stiwdio'n dal i fod yn Gwernafalau, stiwdio wreiddiol y cwmni. Gwesty Dinas Dinlle fu'n gartref i'r aelodau am yr wythnos. Aeth y recordio'n hwylus iawn, yn bennaf am fod y band wedi bod yn ymarfer dros y misoedd ac wedi cael cyfle i berfformio'r caneuon o flaen cynulleidfa ar lwyfan. Hefyd, Bryn Jones, eu peiriannydd llwyfan oedd wrth y ddesg yn y stiwdioRoedd pethau'n argoeli'n dda!……

'Nol ar yr hewl, ac yn dal yn Sir Gar. Ar y 29ed o Ebrill gwelwyd y band yng Ngholes Y Drindod, Caerfyrddin. Tair gig ym mis Mai:

Mai 7ed	Prestatyn. (Noson dda!)
Mai 13 eg	Theatr Felin Fach. (Noson dda iawn!)
Mai 21ain	Gwauncaegurwen. (Noson dda. Ffilmiwyd gan y BBC)

Ar noson y 3ydd o Fehefin gwelwyd y band yn cael rhaglen gyntaf cyfres newydd Twndish i'w hunain. Hanner awr gyfan o set. Eto derbyniad da ar y cyfan. Ond roedd cymylau duon ar y gorwel heb os.
Daeth awgrym o beth oedd i ddod ym Mhorthmadog ar nos Sadwrn 11eg o Fehefin. Roedd neuadd y dre yn bell o fod yn llawn. Noson siomedig, am y tro cyntaf i'r band. Roedd hyn yn brofiad newydd ac annisgwyl. Roedd pethau ychydig yn well yng Nghanolfan Rhydycar, Merthyr ar nos Sadwrn y 9ed o Orffenaf. Dyma sylwadau Dafydd Saer a aeth yno yng ngeiriau ei hyn 'just for fun':

"…miwsig o safon anghyffredin o uchel….caed harmoneiddio cywir oddi wrth y ddwy ferch (nid dim ond yn edrych yn neis – maent yn gallu canu hefyd) i lawnder llais Cleif, sydd wedi gwell yn ddiweddar…
O gysidro mai dyna oedd eu 8ed sioe, mae gobaith mawl iawn i Injaroc."

Phew! Diolch Dafydd, mae'r trên 'nol ar y cledrau, yn ydy? Wel ydy, tan cyrraedd gorsaf Pontrhydyfendigaid ta beth!
Roedd Twrw Tanllyd yn achlysur, ac Edward H. wedi gweld llwyddiant mawr yno. Yn wir, fu Geraint yn chware 'da nhw yn eu gig ddiwethaf yno, ac wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn. Roedd heno'n mynd i fod yn wahanol. I ddechrau pethe, 'Shwn' oedd yn mynd i orffen y noson fel y prif grŵp. Digon teg wrth edrych 'nol. Roedd y band wedi bod yn perfformio gyda'i gilydd am amser, ac wedi ennill eu plwyf. Roedd ganddynt ddilyniant. Falle bod ambell aelod o Injaroc yn gweld pethau yn wahanol, ond roedd dim drwg deimlad o gwbwl. Ond yr eiliad iddynt gerdded i'r llwyfan daeth gwaeddi o'r gynulleidfa. Clywyd ambell lais yn sgrechian – " Edward H." a "Dewi Pws" ac mewn amser – "Shwn! Shwn! Shwn!". Wrth i Injaroc fynni berfformio'i set yn wrol fel petai, fe aeth y sgrechian yn fwy cas a phersonol, wedi ei aneli at Hefin a hefyd y merched. Erbyn i'r band orffen eu set roedd ambell gitarydd, heb enwi neb, yn gynddeiriog ac yn awyddus iawn i esbonio i aelodau Shwn, oedd yn pasio ar y ffordd i'r llwyfan, ei deimladau. O diar! Noson i anghofio.

Ond anodd gwneud, gan fod y gig yn Top Rank, Abertawe wythnos yn ddiweddarach yn gyfle unwaith eto i'r garfan fach gegog i leisio eu barn. Ac er i Injaroc orffen y

noson, Bran a Band Heather Jones derbyniodd y gymeradwyaeth fwyaf. Ac ar ôl hyn i gyd, roedd 'Steddfod Wrecsam ym mis Awst yn aros fel blaidd am y diniwed.

Ond cyn ddiwedd mis Gorffenaf rhyddhawyd record hir y grŵp.

HALEN Y DDAEAR – Injaroc (Sain 1094M)

Halen Y Ddaear – Endaf Emlyn.
Blodau'r Ffair – Endaf Emlyn.
Llithro Mas – Hefin Elis.
Ffync Yw'r Pwnc – Endaf Emlyn.
Swllt A Naw – Endaf Emlyn.
Pwy – Geraint Griffiths.
Capten Idole – Geraint Griffiths.
Ledi – Geraint Griffiths.
Calon – Caryl Parry Jones.
Fenyw – Geraint Griffiths.
Paid Edrych 'Nol – Hefin Elis a Caryl Parry Jones.
Eryr – Endaf Emlyn.

Dyma beth ysgifenwyd yn *Y Cymro*:

" …Mae cynllun llachar y llawes wedi ei seilio ar gynnwys can agoriadol y record ac a rydd ei theitl iddi – 'Halen Y Ddaear'. Ar y tu blaen ceir llun o wyneb merch ddeniadol ben felen yn null naws y 50'au, ac ar y tu ôl ceir dau fachgen mewn siacedi lledr moto beics.

Yn ôl cwmni Sain, cyhoeddwyr y record, can y gobeithir y bydd yn apelio at Wil Sam yw'r gan agoriadol, gan ei bod yn son am foto beics1

Amrywiaeth yw nodwedd amlycaf gweddill y cynnwys yn ôl Hefin Elis. "Roedd yn arwyddocaol pan euthum a'r tap i Lunain i'w dorri i un o'r technegwyr holi os mai'r un grŵp a ganai'r holl ganeuon", meddai.
…Dewiswyd y dwsin mas o tua dau ddwsin a berfformir yn rheolaidd gan y grŵp, a hydera'r aelodau y bydd rhyddhau'r record cyn yr Eisteddfod, nid yn unig yn ychwanegu at werthiant yn Wrecsam ond yn fodd i dderbyn mwy o gyhoeddiadau."

Ac ymlaen aeth yr erthygl heb adolygu'r gerddoriaeth o gwbwl! O wel!

EISTEDDFOD WRECSAM A'R CYLCH 1977

Trefnwyd pedair gig yn ystod yr wythnos:

Nos Fawrth, Awst yr 2ail. Y Pafiliwn - 'Cyffro Cyn Clwydo'
Nos Iau, Awst y 4ydd. Cae Ras – 'Crani'
Nos Wenner, Awst y 5ed. Theatr Clwyd.
Nos Sadwrn, Awst 6ed. Yr Odeon.

Roedd gan y band deimladau cymysg wrth deithio i Wrecsam, yn enwedig ar ôl derbyniadau cymysg i'r record hir a derbyniadau cymysg, a dweud y lleiaf, i'r perfformiadau byw! Y Pafiliwn oedd y lleoliad cyntaf, adeilad ddi-naws o safbwynt

perfformio cerddoriaeth roc heb os. Mae'n amhosib disgrifio ansawdd acwstig y lle heb fod yn negyddol. Mae hefyd yn lle anferth i'w llenwi ond roedd tua dwy fil o bobol yno. Ac i'r llwyfan cystadleuol hwn daeth y band. Carfan fach iawn fu'n 'heclo' y noson honno, ond er yn fach roedd yn ddigon i gael effaith. Galw am 'Bran', 'Shwn', 'Edward H.' a hyd yn oed 'Dewi Pws' wnaeth y criw swnllyd, unrhyw un on Injaroc! Ond mynnodd y band gael sylw y gynulleidfa, yn heriog ar adegau, er hynny, noson drist oedd hon i'r aelodau. Yr ysgrifen ar y mur a roedd dwy noson i ddod!

"Fyddwch chi'n CRANI?" gofynnodd y posteri. Roedd y Cae Ras yn llawn ac yn barod am noson dda. Roedd agwedd Injaroc wedi caledu ers nos Fawrth, ac roedd yr aelodau yn barod i ddangos eu medr. Digon yw digon, ac roedd y Cae Ras yn arena berffaith ar gyfer sioe fawr, y math o sioe oedd o fewn galli Injaroc. Dyna deimlad y band ta beth. Roedd Disgo'r Ddraig wedi cynhesu'r dorf yn barod, a'r bandiau arall yn llu. Bran, Crysbas, Seindorf, Hergest, Josgin, Madog a Shwn. Ond roedd un peth arall yn aros ar ochr y llwyfan fel petai. Roedd hi'n arllwys y glaw, yn arllwys y glaw yn ddigon trwm fel bod rhaid gorffen y noson cyn i Injaroc fynd i'r llwyfan. Roedd perygl i fywyd y perfformwyr o'r holl offer trydanol yn y lle. Siom anferthol i'r band, a'r teimlad oedd, fod cyfle euraidd wedi ei gipio gan y tywydd gwlyb.

Roedd gig Theatr Clwyd, ddim yn y brif theatr ond yn un o'r 'stafelloedd llai, yn ddigon boddhaol. Roedd awyrgylch tebycach i glwb-nos yn eu siwtio.
Hefyd, fu'r noson yn yr Odeon yn noson dda, heb yr heclo di-baid, a'r gynulleidfa yn ymateb yn dda. Cafwyd perfformiad grymus a heriog wrth y band, ond yn rhi hwyr. Nid i'r gynulleidfa ond i aelodau y band. Cyn gadael gwesty'r 'Chain Bridge' yn Llangollen, roedd y penderfyniad wedi ei wneud; roedd Injaroc wedi chwalu.

Y GIGS

1	Mawrth	5ed	'Steddfod Rhyng-Golegol	Aberystwyth
2	Ebrill	1af	Neuadd Y Pentref	Llangadog
3	Ebrill	29ain	Coleg Y Drindod	Caerfyrddin
4	Mai	7ed	Y Gwersyll	Prestatyn
5	Mai	13eg	Y Theatr	Felin Fach
6	Mai	21ain	Neuadd Y Gweithwyr	Gwauncaegurwen
7	Mehefin	11eg	Neuadd Y Dre	Porthmadog
8	Gorffennaf	9ed	Rhydycar	Merthyr
9	Gorffennaf	16eg	Twrw Tanllyd	Pontrhydyfendigaid
10	Gorffennaf	22ain	Top Rank	Abertawe
11	Awst	2ail	Pafiliwn Yr Eisteddfod	Wrecsam
12	Awst	5ed	Theatr Clwyd	Yr Wyddgrug
13	Awst	6ed	Yr Odeon	Wrecsam

Petai Injaroc wedi canu yn y Cae Ras fyddent wedi perfformio mewn pedair gig ar ddeg, ond y cyfanswm mewn gwirionedd oedd, tair ar ddeg. Anlwcus i rai ma' nhw'n dweud!

Diolch yn fawr a nos da!

POST-MORTEM

Epitaph Hefin Wyn yn *Y Cymro*:

"Ac yng nghyflawnder yr amser y penarglwyddyn a ddywedodd bydded taw ar Edward H. Dafis. Ymwasgarer a deuer ynghyd ymhen chwe mis i ymffurfio grŵp cerddorawl newydd. Canys Cymru sy'n barod am rwp mawreddog yn gymysgfa o enethod del a gitaryddion gloyw. A bydded enw y grŵp Injaroc.

Bydd i Injaroc deithio i'r deheubarth, y canolbarth a'r gogledd, a defnyddied eu doniau i ymserchu eu hun ymhlith ieienctyd Cymru. Na phoener am na chwyddiant, na phroblemau ariannol na thechnegol. Gwneled hyn a rhyddhaed record hir a llwyddiannus fydd. Disgleirio wna megis seren ar frig y rhos.
Gwnaed yn ôl y cyfarwyddiadau, ond yn anffodus, aeth un peth o'i le – ni ddaeth y llwyddiant rhagordeiniedig."

"Yn dilyn perfformiad yn llawn fflach yn Aberystwyth, a pherfformiad cyffrous yn 'Roc Ar Y Waun', gwelwodd y disgleirdeb i eiddo bwlb drydan lwchlyd. Bu rhaid ildio lle ar y brig yn 'Twrw Tanllyd' ac ildio cymeradwyaeth i grwpiau eraill yn Top Rank, Abertawe. Cipiwyd y gwynt o'i hwyliau yn Wrecsam. Bu'n wythnos o gynhebrwng hir. Ac ni fu wylofain."

INJAROC

"Ni chyflwynwyd yr un cymeriad na delwedd ganolog i'r gwrandäwr. Doedd dim sefydlog yno i uniaethu ag ef. O ganlyniad cai'r gwyliwr a'r gwrandäwr drafferth i benderfynu sut i ymateb, a rhaid oedd penderfynu, ni ellid gwneud yn reddfol. Pwy a beth y disgwylid iddo gymeradwyo? Mae meddalwch y gan 'Halen Y Ddaear' yn hunllef. Nid oedd Injaroc yn cynyrchioli'r un dim.

Gallu a phersonoliaeth

Yr hun a ddengys y record 'Halen Y Ddaear', yw bod gennym artistiaid sydd a'r gallu a'r bersonoliaeth i arwain eu grwpiau a'u gyrfaoedd cerddorol eu hunain. Profodd Endaf Emlyn hynny eisoes. Felly Cleif – a does ganddo'r un cyfansoddiad ar y record hon. Dengys tu fewn llawes fursennaidd y record hon mai'r un yw dawn Geraint Griffiths. Mae record hir a gyrfa o ganeuon disco yn wynebu Caryl a Sioned. Yr hyn sydd ei angen yw criw o gerddorion i'w cynorthwyo ar eu llwybrau unigol."

"Nid oherwydd diffygion cerddorol y methodd Injaroc ond oherwydd diffyg personoliaeth. Ar lwyfan o flaen cynulleidfa yr enilla pob grŵp eu blwyf. Roedd ymddangosiadau eisteddfodol Injaroc yn brawf o'i anallu i drin cynulleidfa. O'i

wynebu ag elfen wrthwynebus, derbyn yr her, a thrwy sylw neu ddau go ddeifiol, gwneud ffyliaid o'r gwatwarwyr cyn pen chwinciad a wnâi Dafydd Iwan. Yr un modd unrhyw artist a ŵyr mai ar gledr ei law y mae lle cynulleidfa. Dyna'r rheol bwysicaf. Nid yr elfen wrthwynebus a wnaed i ymddangos fel ffyliaid yn "Cyffro Cyn Clwydo"

Gwthio ffiniau ffwnc

"Hawdd deall y rhesymau dros fentro ffurfio Injaroc. Fe'u gwelir o arall eirio geiriau Hefin Elis yn rhifyn Nadolig 1973 o'r cylchgrawn 'Swn'. Ymgais i ddatblygu. Gwthio ffiniau ffwnc. Hawdd deall methiant Injaroc hefyd o gofio geiriau colofnydd 'Y Faner', Edward H. Dafis, yn Awst, 1973, wrth gyfeirio at ffurfio grŵp o'r un enw.
""Surbwch llwyfan ydyw"" ac mae ""angen personoliaeth y tu ôl i ganeuon cyn y llwyddiant i ennill poblogrwydd"". Yn hanes y grŵp hwnnw sicrhawyd llwyddiant drwy ymddygiad echblyg dau o'i aelodau ond anghofiwyd am yr anghenraid hwn wrth ffurfio Injaroc. Ni chaniatawyd i'r un bersonoliaeth adweithio'n erbyn y surni. Roedd Cleif Harpwood fel petai ar goll ar lwyfan yn amlach na pheidio.

Cadarnheir methiant cyfathrebol Injaroc o graffu ar ateb aelod hynaf y grŵp pan ofynnwyd iddo sgwrsio am y grŵp. ""Does gen i ddim i'w ddweud o gofio am y wasg Gymraeg fel y mae ar hyn o bryd"", meddai. Ni ymhelaethodd. Does dim angen ychwanegu at y glasur o sylw. Siarad nes ei fod yn gryg a wna Steve Harley i gael yr un effaith.

O ran adnoddau, gallu ac uchelgais, roedd Injaroc i'w gymharu ag eiddo llawer o grwpiau Saesneg. Haedda ymdrech i'w feirniadu yn yr un cyd-destun. " "A mixture of West Coast / MOR / country-rock / disco sounds played with no real conviction despite mastering of technique"" fydda'r dyfarniad."

Edrych ymlaen

"Bu Injaroc yn ddoeth i chwalu. Tro'n ferfaidd a wnâi i barhau. Byddai record arall o ganeuon mor flasus â chosyn maethlon wedi llwyddo. Er dweud hynny edrychaf ymlaen i wrando ar recordiau'r unigolion fel aelodau o grwpiau eraill ac at recordiau unigol gan Endaf Emlyn. Mae ganddynt oll gyfraniad gwiw i'w wneud, yng nghyflawnder amser."

Talentau Unigol

"Ond er y chwarae tynn a'r amrywiaeth o arddulliau yn gwau yn gelfydd, a lwyddodd yr arbrawf o greu grwp mawreddog drwy gyfuno doniau wyth o artistiaid sydd gyda'r mwyaf talentog yng Nghymru? Naddo. Yr hyn a brawf y record yw bod eu talentau unigol yn drech nag eiddo Injaroc.

Beth oedd Injaroc? Grwp ffwnc? Grwp roc trwm? Grwp a ddefnyddiai rywioldeb Caryl a Sioned a chaneuon disco nwyfus i ennyn poblogrwydd? Pwy oedd Injaroc? Geraint Griffiths ac eraill? Endaf Emlyn ac eraill? Neu Caryl Parry Jones ac eraill?"

Hefyn Wyn

LLYTHYRON I'R WASG

Sylwadau 'politicaidd'?

"…Am faint yn fwy mae'n rhaid i ni ddioddef erthyglau fel hyn? Pam mae'n rhaid i ni, ddilynwyr y byd pop Cymraeg gael ein dylanwadu? Pam na ddylen ni ddarllen barn ac adlewyrchiad chwaeth bersonol yn hytrach na chael erthygl yn beirniadu'n deg ansawdd a safon gerddorol grwpiau / artistiaid?"

M. Williams.

Ystyfnigrwydd ieuenctid Cymru

"…Fel un o'r trefnwyr y ddawns a gynhaliwyd yn Merthyr Tudful, Gorffennaf 9ed, yng nghwmni Injaroc, fe hoffwn i ar ran fy nghyd-drefnwyr a llawer o bobl ifanc leol sy'n digwydd bod yn ddi-Gymraeg diolch a llongyfarch Injaroc ar eu perfformiad graenus a chaneuon chwaethus o safon gerddorol arbennig o dda. Pob clod i bob aelod o'r grŵp a phob hwyl am y dyfodol."

Malcolm Llywelyn.

O leiaf 'roedd Injaroc yn wreiddiol

"…Oherwydd ni chafodd Injaroc gyfle i wireddu ei lawn botensial. Ni chafodd gyfle. Fe'i llofruddiwyd gan ffyliaid byddar a'r iobs meddw a wrthododd wrando arno! Nid oedd y wasg, ychwaith yn ddieuog. Chwarae i'r galeri wnaeth ein prif ohebwyr. Beirniadu grŵp ar ôl iddo fod mewn bodolaeth am tua phedwar mis! Anhygoel.

Alun Lenny.

Y gair olaf

Dechreuodd stori Injaroc gyda grŵp arall, sef Edward H. Dafis. Mae'n gorffen yn yr un modd. Ond nid gyda'r grŵp hwnnw yn unig. Mae'n dod i ben yng ngherddoriaeth a llwyddiant sawl grŵp arall, sef Bando, Jîp ac Eliffant. Gyda'r holl gyngherddau, dawnsfeydd a recordiau hir ddaeth yn sgil chwalu Injaroc.